Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hafan Y Mor
# Heywood Lane
# Dinbych-y-Pysgod
# Sir Benfro
# SA70 8BZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Hafan Y Mor

Mae Ysgol Hafan y Môr wedi ei lleoli yn nhref glan môr Dinbych-y-Pysgod yn Awdurdod Lleol Penfro. Mae 142 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 19 o ddisgyblion oed meithrin sy'n amser llawn a 28 o ddisgyblion oed meithrin rhan amser.

Dros dreigl tair mlynedd , mae tua 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Tua 7% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 13% o'i disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2016. Nid yw'r ysgol wedi derbyn arolygiad craidd o'r blaen gan ei bod yn ysgol newydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth gadarn yn hynod fedrus gyda holl gymuned yr ysgol.  Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn gwneud cynnydd cyson da.  Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn eithriadol er mwyn darparu profiadau gwerthfawr i bob disgybl.  Mae rhieni'n cefnogi holl weithgareddau'r ysgol yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n effeithiol at greu amgylchedd deuluol o fewn cymuned glòs yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn mewn amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau dysgu.  Maent yn gweithio'n annibynnol ac mewn grwpiau yn effeithiol, ac yn ymroi'n frwdfrydig tra'n cyflawni tasgau.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dysgu'n effeithiol yn y dosbarth ac yn cymhwyso eu medrau yn gadarn mewn heriau creadigol yn yr ardal allanol.   Mae staff yn defnyddio'r ardal allanol yn gynhwysfawr ac yn manteisio ar y safle eang er mwyn cyfoethogi gweithgareddau dysgu.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn llwyr ymgolli yn eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr medrus.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus ac maent yn falch o'u Cymreictod.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus mewn amgylchedd naturiol Gymreig.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella gwaith ysgrifennu creadigol disygyblion yn fwyfwy ymestynnol ar draws yr ysgol, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A2 Sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm

A3 Datblygu strategaethau adborth ymhellach er mwyn i'r disgyblion wybod beth a sut i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Ysgol Hafan y Môr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd Ysgol Hafan y Môr i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y corff llywodraethol o ran holl weithdrefnau'r ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r disgyblion Meithrin yn gwrando ac yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau a thrafodaethau Cymraeg gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod adeiladol o batrymau brawddeg yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 drafod eu gwaith am ailgylchu. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar y sylfaen gadarn hon ac maent yn hyderus i ddefnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae a'i defnyddio'n bwrpasol yn eu gwersi. Maent yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn llwyddo i'w defnyddio, ochr yn ochr â'r Saesneg, yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod pynciau diddorol yn aeddfed gan ddefnyddio geirfa ymestynnol i greu effaith, er enghraifft wrth drafod boddi Cwm Tryweryn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn darllen gyda mynegiant aeddfed. Maent yn trafod cynnwys y llyfrau yn fyrlymus ac yn cyfeirio at nodweddion testun yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg gan drosglwyddo gwybodaeth o'r naill iaith i'r llall yn hyderus. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion Blwyddyn 6 yn ymchwilio am wybodaeth addas er mwyn cyflwyno gwybodaeth am drychineb amgylcheddol y llong Sea Empress.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn cofnodi mewn amrywiaeth addas o weithgareddau, er enghraifft wrth ysgrifennu cerdyn brysiwch wella at famgu yr Hugan Fach Goch. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o'r disgyblion yn amrywio dechrau brawddegau yn llwyddiannus gan gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth ddisgrifio Barti Ddu. Wrth symud trwy gyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith gan baragraffu ac atalnodi'n gynyddol gywir, ar y cyfan. Maent yn defnyddio ystod briodol o eirfa er mwyn cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft ansoddeiriau diddorol wrth ddisgrifio llun gan un o arlunwyr lleol yr ardal. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o ffurfiau ac yn defnyddio iaith bwrpasol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol i ddenu ymwelwyr i Ddinbych-y-Pysgod. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu gwaith ysgrifennu creadigol yn ddigon ymestynnol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae eu dealltwriaeth o ffeithiau rhif a gwerth lle yn

gadarn. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o rif, er enghraifft wrth ddechrau deall y cysylltiad rhwng lluosi a rhannu syml tra'n plannu hadau ar gyfer tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda ar ddysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu gwaith rhifedd yn gadarn, er enghraifft wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd pecynnau gwahanol fwydydd. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn briodol, er enghraifft wrth ddadansoddi canlyniadau arolwg micro blastig mawr ar draeth yn Ninbych-y-Pysgod. Maent yn amcangyfrif a chyfrifo faint o blastig sydd mewn metr sgwâr ac yn bwydo eu hatebion i fformiwlâu er mwyn crynhoi eu canlyniadau yn bwrpasol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dangos hyder wrth drafod gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a bas data canghennog yn fedrus. Maent hefyd yn datblygu eu medrau animeiddio yn effeithiol, er enghraifft trwy greu dyluniau o rannau penodol o stori Y Gryffalo. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datlbygu eu medrau TGCh yn fedrus ac yn annibynnol mewn amrywiaeth o weithgareddau ehang, er enghraifft wrth ddefnyddio pecyn rheoli i lunio siapiau 2d ac wrth ddefnyddio rhaglen casglu gwybodaeth am artistaid pop y 1960au a chyflwyno eu canfyddiadau mewn bas data.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac wrth symud o amgylch yr ysgol yn gyson bwrpasol. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac aeddfedrwydd. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor os ydynt yn gofidio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod pryderon emosiynol a chymdeithasol yn hyderus trwy nodi sut maent yn teimlo ar siartiau dyddiol o fewn eu dosbarthiadau.

Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o gadw'n heini. Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft trwy'r clwb criced, yoga a gweithgareddau corfforol amrywiol am bum munud yn ddyddiol. Mae'r llysgenhadon efydd yn arwain sesiynau chwarae wythnosol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn fedrus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw'n heini.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o gadw'n ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae'r dewiniaid digidol yn creu posteri a rap diogelwch y we. Maent hefyd yn derbyn gwersi rheolaidd gan swyddog cymunedol yr heddlu er mwyn trafod seibr fwlio. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd trafod peryglon a allai godi wrth ddefnyddio'r we yn ddeallus.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cael cyfleoedd perthnasol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd ysgol trwy weithredu'n gynhyrchiol, er enghraifft fel aelodau cyngor ysgol, cyngor eco a llysgenhadon efydd. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau amrywiol yn frwdfrydig, er enghraifft trwy werthu adnoddau er mwyn codi arian i brynu diffibriliwr. Mae ychydig o'r disgyblion yn datblygu eu medrau

arwain yn effeithiol fel aelodau o'r pwyllgor presenoldeb. Maent yn gyfrifol am fonitro presenoldeb a gwobrwyo dosbarthiadau yn llwyddiannus trwy system Presenoldeb Perffaith. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn awyddus i fynychu'r ysgol yn gyson.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfle priodol i fynegi eu barn am faterion amgylcheddol drwy'r cyngor eco. Maent yn trefnu ystod o weithgareddau, er enghraifft plannu coed yng nghoedwig yr ysgol. Maent hefyd yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni trwy hybu eu gwisg ysgol Masnach Deg.

Mae bron pob disgybl yn falch o'u Cymreictod. Mae'r dreigiau Cymraeg yn trefnu nifer o weithgareddau diddorol er mwyn hybu hyn, er enghraifft trwy fwynhau cerddoriaeth Gymraeg. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth llawer o'r ddisgyblion o gyfrifoldeb dros eraill ac, o ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion cyfrifol.

Mae bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau dysgu gan ddangos diddordeb a brwdfrydedd yn y gweithgareddau, er enghraifft wrth ymgymryd yn frwdfrydig â heriau yn ymwneud â phwyso yn y cyfnod sylfaen. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion ac yn dangos parch at eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gwydnwch trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau datrys problemau yn heriau'r ardal allanol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn datblygu perthynas waith gadarnhaol er mwyn hybu dysgu effeithiol. Maent yn creu awyrgylch ysgogol a chefnogol sydd wedi ei seilio ar gwrteisi a pharch. Mae'r staff yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus trwy arddangosfeydd graenus a chreadigol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n ddiwyd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r amgylchedd Gymreig gadarn sy'n bodoli ynddi sy'n annog disgyblion i ymfalchïo yn y Gymraeg. Mae staff dysgu yn fodelau iaith medrus ac yn hyrwyddo'r defnydd naturiol o'r Gymraeg o oedran cynnar iawn. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd creadigol i'r disgyblion ddysgu am Gymru, er enghraifft am enwogion Cymreig ddoe a heddiw. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus a chymwys sy'n falch o'u Cymreictod.

Mae gan ran fwyaf o'r athrawon wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn ei defnyddio'n fedrus er mwyn cynllunio profiadau cyfoethog a gwersi diddorol. Mae cyflwyniadau gwersi yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol ac maent yn defnyddio technegau holi amrywiol er mwyn dwyn gwybodaeth blaenorol i gof yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn hybu'r disgyblion i gydweithio ac i ddefnyddio dulliau i gefnogi ei gilydd yn effeithiol, er enghraifft wrth gynllunio a chreu lloches yn yr ardal allanol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus gan oresgyn anawsterau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn ddigon heriol bob tro er mwyn ymestyn ychydig o'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynllunio ystod werthfawr o brofiadau dysgu symbylus sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Mae gofynion y fframwaith llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi eu hymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau gwaith yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio thema ysgol gyfan yn dymhorol sydd yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif y staff yn annog disgyblion i wneud dewisiadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu o fewn y gweithgareddau. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n ystyried eu dewisiadau ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae staff Blwyddyn 2 yn creu siop flodau yn yr ardal chwarae rôl ar gais y dysgwyr. Mae'r arfer o ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau am beth a sut maent yn dysgu yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig priodol i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod pa mor dda maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn rhoi cyfleoedd addas i'r disgyblion asesu eu perfformiad eu hunain ac eraill gan ddatblygu amgylchedd ddysgu gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu datblygu'n feistrolgar. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r dosbarth a'r ardal allanol i ansawdd uchel iawn. Yn yr arfer orau, maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau trwy gyfres o heriau pwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu ffilm fer am bwysigrwydd gofalu am gynefin blodau gwyllt yn y goedwig fel rhan o weithgareddau Mercher Mwdlyd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn dechrau cynllunio gweithgareddau symbylus yn yr ardal allanol, er enghraifft trwy gasglu gwybodaeth am adar yn y goedwig er mwyn dylunio a chreu bocsys nythu. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n fuddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn effeithiol wrth ystyried cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu ei defnydd o wybodaeth tracio a monitro yn wybodus er mwyn darparu cymorth cadarn. Mae adroddiadau unigol disgyblion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n nodi cynnydd a'r camau nesaf yn glir.

Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn trefnu darpariaeth cynhwysfawr ar eu cyfer. Gwneir defnydd effeithiol o gynorthwywyr i gynnig ystod eang o raglenni ymyrraeth. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad personol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol sydd yn cynnwys targedau clir a meintiol. Mae athrawon yn adolygu'r targedau'n gyson yn ystod y flwyddyn ac mae rhieni a disgyblion yn cyfrannu'n briodol i'r broses.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gyda'r seicolegydd addysg, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol a'r tîm cynhwysiant er mwyn sicrhau cefnogaeth bwrpasol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn derbyn cefnogaeth fuddiol ac yn gwneud cynnydd cyson.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am ddigwyddiadau yr ysgol yn gyson drwy gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron a'r safle we. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i rieni gefnogi eu plant, er enghraifft trwy osod gweithgareddau darllen ar Hwb a hybu rhieni i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu clybiau allgyrsiol, er enghraifft clwb coginio iachus, clwb chwaraeon, garddio a chlwb crefft, sy'n cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn anfon bagiau offer chwaraeon adref gyda'r disgyblion ieuengaf er mwyn datblygu eu medrau corfforol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion a'u rhieni o gadw'n heini.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog a'u bod yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac hyderus. Mae staff yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus trwy ddysgu am wahanol ddiwylliannau. Maent yn darparu ystod effeithiol o gyfnodau pwrpasol i'r disgyblion ddysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill ac yn myfyrio ar wahanol agweddau crefyddol a moesol. Er enghraifft, maent yn astudio Yr Wythnos Sanctaidd, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol am stori Rama a Sita. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod nodweddion crefyddau gwahanol yn sensitif a gwybodus. Cynhelir sesiynau meddylgarwch yn rheolaidd sy'n hyrwyddo lles a datblygiad moesol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae staff yn gweithredu'r cynllun addysg bersonol a chymdeithasol yn gyson yn yr ysgol gyda'r ddarpariaeth ar waith yn y gwersi a thu hwnt, er enghraifft trafod anabledd yn sensitif. Mae'r pwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hawliau yn amlwg ym mywyd yr ysgol, drwy arddangosfeydd, mewn gwasanethau ysgol gyfan ac yn y rôl flaenllaw mae disgyblion yn ymgymryd â hi ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn 'ysgol ddweud' ac mae staff yn annog y disgyblion i rannu eu pryderon drwy amryw o ffyrdd, er enghraifft yn ystod amser cylch. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu mentrau creadigol disgyblion o fewn yr ysgol a'r gymuned yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn cystadlu mewn eisteddfodau ac yn datblygu cysylltiadau gwerthfawr gydag artistiaid ac awduron lleol. Maent yn cael cyfleoedd i fynychu'r theatr leol ac mae cwmnïau theatr mewn addysg yn ymweld â'r ysgol, er enghraifft sioe Barti Ddu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sydd yn seiliedig ar ddarparu'r cyfleoedd a'r gofal gorau posibl i bob disgybl. Dros gyfnod byr, mae hi wedi rhannu hyn yn angerddol ar draws yr ysgol. Trwy hyn, mae hi wedi sefydlu ethos teuluol a chroesawgar ble mae pawb yn falch o berthyn i Ysgol Hafan y Môr.

Mae'r uwch dîm rheoli yn rhannu eu disgwyliadau uchel yn fedrus gyda staff. Trwy hyn, maent yn cydweithio'n fedrus gyda'i gilydd. Mae hyn yn nodwedd gref yn yr ysgol, ac o ganlyniad, maent yn datblygu tîm effeithiol a chydwybodol. Maent wedi cyflwyno arweinwyr tîm, sydd yn gyfrifol am arwain meysydd penodol o fewn yr ysgol, er enghraifft iechyd a lles. Maent yn cefnogi staff yn bwrpasol i ddatblygu systemau effeithiol i fonitro'r ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Trwy hyn, maent yn creu darlun clir o'r hyn sydd angen ei wella a sut maent am gyflawni hynny. Mae hyn yn darparu blaenoriaethu doeth sydd yn fuddiol i'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol a deniadol i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg o fewn yr ysgol a'r gymuned.

Cefnogir yr arweinwyr yn bwrpasol ac hynod effeithiol gan y corff llywodraethol. Maent yn adnabod yr ysgol yn ardderchog ac wedi gweithio'n ddiflino i sefydlu'r ysgol. Mae'r aelodau yn hynod weithgar a chefnogol ac yn cael effaith rymus ar godi safonau a lles y disgyblion. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau i'w gwella trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau gwella ansawdd yn rheolaidd. Trwy hyn, maent yn hyderus yn herio'r arweinwyr ac yn gweithredu'n hynod effeithiol fel ffrindiau beirniadol a gwerthfawr i'r ysgol. Mae effaith y corff llywodraethol ar ddatblygiad yr ysgol yn nodwedd arbennig.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol yn gyson dda trwy gasglu a dadansoddi ystod eang o wybodaeth am yr ysgol. Maent yn defnyddio sylwadau rhieni a disgyblion yn ogystal ag arsylwadau gwersi a theithiau dysgu yn bwrpasol i flaenoriaethu meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i greu cynlluniau pwrpasol. Mae amserlen monitro ddefnyddiol yn arwain at olrhain cynnydd yn ôl y blaenoriaethau gan staff a llywodraethwyr sydd yn sicrhau bod y camau gweithredu yn arwain at welliant. O ganlyniad i'r systemau hyn, mae'r ysgol yn mynd i'r afael â nifer o'r blaenoriaethau yn effeithiol dros gyfnod. Enghraifft dda o hyn yw gwella safon Cymraeg a lles y disgyblion.

Ers sefydlu'r ysgol, mae'r arweinwyr wedi sicrhau cyfleoedd pwrpasol i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae ganddynt swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn gweithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Trwy brosesau rheoli perfformiad cadarn, mae'r pennaeth yn dechrau datblygu arweinwyr ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon yn arwain gwahanol agweddau o'r ysgol ac yn datblygu eu medrau arwain yn fedrus, er enghraifft y tîm cynnydd yn datblygu effeithlonrwydd systemau olrhain cynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Maent yn monitro gwariant yn ddoeth ac yn sicrhau bod staffio ac adnoddau yn addas. Mae'r arweinwyr yn sichrhau cyllid ychwanegol drwy grantiau penodol yn llwyddiannus, er enghraifft i ddarparu cwrs rhwystr newydd ar y cae er mwyn hybu lles a ffitrwydd. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi eu lles emosiynol a chymdeithasol.

Un o gryfderau'r ysgol yw eu defnydd effeithiol o'r safle. Mae staff yn creu amgylchedd ddysgu ddeniadol o fewn y dosbarthiadau ac yn yr ardal allanol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r staff yn darparu offer ysgogol i sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni'r heriau yn llwyddiannus yn y gwahanol ardaloedd. Mae'r llwyfan agored yn darparu cyfle i'r disgyblion berfformio, ac mae staff yn defnyddio'r goedwig yn hynod effeithiol er mwyn i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau rhifedd a llythrennedd. Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ardal allanol er mwyn datblygu medrau corfforol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau addysg gorfforol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2019